

Sofosbuvir-velpatasvir i drin hepatitis C cronig

25 Ionawr 2016

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir sofosbuvir-velpatasvir eclusa) fel triniaeth bosibl ar gyfer hepatitis C cronig mewn oedolion. Gweler tabl 1.

Tabl 1 Triniaeth Sofosbuvir–velpatasvir

Math o hepatitis C a cham clefyd yr afu/iau	Triniaeth a argymhellir gan NICE ar gyfer hepatitis C nas triniwyd neu hepatitis C a driniwyd
1, 4, 5, 6, gyda neu heb sirosis digolledol	Sofosbuvir–velpatasvir
2, heb sirosis	Sofosbuvir–velpatasvir ar gyfer hepatitis C cronig a driniwyd. Sofosbuvir–velpatasvir ar gyfer hepatitis C nas driniwyd, dim ond os nad yw pobl yn gallu goddef interfferon neu os nad yw'n addas ar eu cyfer.
2, gyda sirosis digolledol	Sofosbuvir–velpatasvir
3, heb sirosis	Sofosbuvir–velpatasvir
3, gyda sirosis digolledol	Sofosbuvir–velpatasvir (gyda neu heb ribavirin)
1–6, gyda sirosis anghyfadferol	Sofosbuvir–velpatasvir (gyda ribavirin)

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os oes gennych hepatitis C a bod eich meddyg yn credu mai sofosbuvir–velpatasvir yw'r driniaeth gywir i chi, dylech allu ei chael ar y GIG.

Dylai Sofosbuvir–velpatasvir fod ar gael ar y GIG o fewn 3 mis.

Os nad ydych yn gymwys i gael y driniaeth a ddisgrifir uchod, dylech allu parhau i gymryd sofosbuvir–velpatasvir nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

Y cyflwr a'r driniaeth

Mae hepatitis C yn afiechyd o'r afu/iau a achosir gan firws hepatitis C. Mae 6 math gwahanol o'r firws. Mae rhai sy'n cael eu heintio gan hepatitis C yn gwella'n gyflym heb driniaeth, ond mae'r mwyafrif o bobl yn datblygu haint hirbarhaol; fe'i gelwir yn hepatitis C cronig. Gall pobl sydd â hepatitis C cronig deimlo'n iach am nifer o flynyddoedd, ond gall y feirws achosi niwed i'r afu/iau (sirosis neu greithiau) a gall wneud iddynt deimlo'n sâl. Gyda sirosis digolledol, mae'r afu/iau yn gallu parhau i weithio yn ddigon da, er gwaethaf y niwed. Gyda sirosis anghyfadferol mae'r afu/iau yn rhoi'r gorau i weithio'n iawn.

Sofosbuvir–velpatasvir ac interfferon yw'r cyffuriau a ddefnyddir i drin mathau penodol o'r firws hepatitis C. Cânt eu cymryd weithiau gyda chyffur arall o'r enw ribavirin. Gallant gael gwared ar y firws mewn pobl nad ydynt erioed wedi cael triniaeth neu sydd wedi cael triniaeth o'r blaen na chafodd wared ar y firws.

Gall [NHS Choices](#) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- [Ymddiriedolaeth Afu/Iau Prydain](#), 0800 652 7330
- [Ymddiriedolaeth Hepatitis C](#), 0207 089 6221
- [HIV-i-Base](#), 0208 616 2210
- [Liver4Life](#), 0800 074 3494
- [Terrence Higgins Trust](#), 0808 802 1221

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2365-6